Ysgol y Dderwen

Polisi Disgyblaeth ac Ymddygiad

CYNNWYS Y POLISI

1. Amcanion yr ysgol
2. Ymddygiad da
3. Disgwyliadau ymddygiad yr ysgol
4. Cynllun Webster Stratton
5. Rheolau ysgol
6. Ymddygiad annerbyniol gan ddisgyblion
7. Dulliau o ymateb i ymddygiad annerbyniol
8. Cefnogaeth a chydweithrediad staff
9. Ymddygiad anystywallt yn yr ysgol
10. Crynodeb

POLISI YMDDYGIAD A DISGYBLAETH YSGOL Y DDERWEN

Er mwyn paratoi disgyblion i dyfu i fod yn ddinasyddion da gweithgar, cymwynasgar a pharchus mewn cymdeithas, disgwylir i bob un ymddwyn mewn modd sy'n creu awyrgylch hapus a diogel o fewn yr ysgol.

1. **Amcanion yr ysgol:-**

- I hyrwyddo agwedd bositif o fewn yr unigolyn tuag at yr ysgol fel cymdeithas war
- I ddatblygu hunan ddisgyblaeth, parch a chydymdeimlad tuag at eraill
- I greu awyrgylch hapus i bob disgybl yng ngweithgarwch yr ysgol oddi yn yr adeilad ac oddi allan
- I gyfleu canllawiau a rheolau clir sy'n berthnasol i bob agwedd o fywyd ysgol
- I annog pob unigolyn i gyfrannu at sefyllfa ddiogel a hapus i bawb sy'n rhan o fywyd ysgol

Credwn y dylai bob person cael ei barchu fel unigolyn, beth bynnag ei ryw, allu, hil, crefydd, cenedlaetholdeb neu oed.

2. **Ymddygiad da**

Y disgwyliadau sydd gan rieni ac athrawon yw bod plant yn datblygu i fod yn aelodau cwrtais a pharchus mewn sefyllfa grŵp. Llwyddir i gyflawni'r nod yma orau trwy gydweithrediad agos rhwng y cartref a'r ysgol. Gwelir parodrwydd plant i wrando, i rannu ac ymateb i arweiniad a cherydd. Pan fydd angen gwella ymddygiad plentyn yna bydd yn rhaid ystyried cynghori ac i gymryd i ystyriaeth anghenion eraill wrth benderfynu'r dull/-iau i'w cymryd. Dylai gwelliant neu gynnydd ymddygiadol dros gyfnod o amser gael ei glodfori.

Mae'n hynod bwysig i roi clod a chefnogaeth am ymdrech lew. Seilir disgyblaeth dda ar ddealltwriaeth o anghenion ein gilydd, ac mae'r ysgol yn cymeradwyo cyfraniadau plant i gynorthwyo eraill yng ngweithgarwch yr ysgol o fewn yr unedau, amserau egwyl, adegau cinio ac yn y gweithgarwch allgyrsiol. Canmolwn ymddygiad da neu dderbyniol yn gyson. Bydd hyn yn lleihau'r angen am geryddu'r anfoddhaol.

3. **Disgwyliadau ymddygiad yr ysgol:-**

- Bod pawb yn ymddwyn yn weddus a moesgar
- Bod pawb yn ymwneud â'i gilydd mewn modd cwrtais, parchus a goddefgar
- Bod pawb yn gofalu ymddwyn mewn modd na fydd yn fygythiol neu'n niweidiol i eraill
- Bod pawb yn parchu ei eiddo ei hun ac eiddo eraill yn yr ysgol

4. Cynllun Webster Stratton

Gweithredir Cynllun Webster Stratton/Ysgol Dina i blant yn yr Uned Cyfnod Sylfaen. Derbyniwyd yr hyfforddiant gan bob aelod o staff yr ysgol. Amcanion pennaf Webster Stratton yw dysgu:-

- Sgiliau cymdeithasol
- Sgiliau rheoli tymer
- Delio â phroblemau emosiynol
- Ymddygiad pwrpasol/addas yn yr ysgol
- Sgiliau darllen, llafar ac ysgrifennu
- Datblygu hunanddelwedd bositif

Gweithredir y cynllun trwy ddefnyddio 4 pyped er mwyn modelu a hybu ymddygiad da.

Rhannwyd y cynllun yn 7 uned, â phob uned yn canolbwyntio ar wahanol elfennau:-

1. Rheolau ysgol
2. Gwneud eich gorau yn yr ysgol
3. Teimladau
4. datrys problemau
5. Rheoli tymer
6. Bod yn ffrindiau
7. Sut i siarad â ffrindiau

Un o elfennau Webster Stratton sy'n treiddio drwy'r ysgol yw'r rheol "llond llaw". Gosodir y rheolau yma ym mhob dosbarth/uned.

Rheolau llond llaw

- Gwrando'n astud
- Llygaid ar yr athro
- Dwylo ar fy nglin
- Dim siarad
- Traed ar y llawr

Mae'n ddyletswydd ar bob aelod o staff i weithredu a sicrhau fod hyn yn cael ei wneud.

Er bod cwricwlwm a chynlluniau gwersi yw dilyn yn Ysgol Dina, anogir y staff i addasu a defnyddio'r pypedau pan fod problemau'n codi e.e. plentyn yn drist yn dod i'r ysgol neu blant yn dadlau amser egwyl.

Trwy wneud cynllun Webster Stratton mae hefyd yn adeiladau ar berthynas yr ysgol â'r cartref. Danfonir llythyr allan ar y dechrau i esbonio beth yw Ysgol Dina, yn ogystal â hyn, danfonir llythyr arall allan ar ddechrau a diwedd pob uned yn esbonio beth fyddwn yn gwneud yn yr ysgol, a sut gall y rhieni helpu adref.

5. Rheolau ysgol:-

Yn gyffredinol

- Cyrraedd yr ysgol yn brydlon
- Bod yn gwrtais a charedig bob amser; peidio byth ag 'ateb oedolyn yn ôl' yn ddigywilydd, na thorri ar draws oedolyn yn siarad; peidio defnyddio iaith anweddus
- Ufuddhau i'r athrawon, gweinyddesau a gofalwyr canol dydd
- Distewi ar ganiad y gloch cyn ymgynnull yn bwyllog a threfnus i resi
- Cerdded - nid rhedeg – i'r adeilad/ o fewn yr adeilad/ o'r adeilad
- Gosod eiddo personol - cotiau - bagiau - yn daclus yn y mannau priodol
- Peidio byth mynd i bocedi – droriau – bagiau – plant eraill
- Rhoi enwau ar eiddo personol
- Peidio gwastraffu amser na chwarae yn y toiledau a'r cynteddau - ceisio peidio â mynd i'r tŷ bach yn ystod gwersi
- Cadw'r adeilad a'r campws yn lân h.y. peidio gadael sbwriel na llanast yn un man (tu fewn na thu allan)
- Peidio chwarae pêl o fewn cynteddau/stafelloedd dysgu
- Peidio difrodi unrhyw ran o'r adeilad a'i hadnoddau
- Peidio bwyta losin/gwm cnoi yn yr ysgol

O fewn yr unedau dysgu

- Cerdded i mewn yn drefnus gan eistedd i lawr yn dawel yn eich man arferol
- Bod yn dawel pan fydd yr athro/awes yn siarad â'r dosbarth cyfan
- Ufuddhau i alwad yr athro/awes
- Os gofynnir cwestiwn i'r dosbarth, yna codwch eich llaw i fyny – ni chaniateir ateb allan o dro; rhoddir cyfle i bawb yn eu tro i ymateb dros gyfnod o amser
- Neb i symud o gwmpas y dosbarth os na roddir caniatâd i chi i wneud hynny
- Peidiwch aflonyddu ar eraill yn yr ystafell ddosbarth: cofier bod hawl gan bob aelod arall o'r dosbarth gael yr un tegwch, sylw a chyfle
- Parchwch lyfrau, adnoddau a dodrefn eich dosbarth

Tu allan i'r dosbarth

- Ar adeg egwyl chwaraewch yn synhwyrol
- Gofalwch rhag bod yn ymosodol - cofiwch fod eraill am yr un cyfle i fwynhau'r rhyddid i gyd-chwarae'n ddiogel a hapus
- Mewn achos damwain ewch yn syth at y staff sydd ar ddyletswydd
- Rhowch wybod i'r staff ar ddyletswydd os digwydd ffrae
- Ar adeg ginio arhoswch eich tro yn dawel i dderbyn eich bwyd

- Gwrandewch ac ufuddhewch i weinyddesau cinio; codwch eich llaw os am ofyn cwestiwn neu am sylw a chymorth
- Dangoswch foesgarwch wrth y ford bwyd
- Bwytewch yn drefnus a thawel heb aflonyddu ar weddill yr eisteddiad
- Ar adeg ymweliad addysgiadol/ymweliad allgyrsiol cofiwch bob amser eich bod yn cynrychioli'r ysgol. Mae eich ymddygiad yn adlewyrchu ar eich ysgol
- Parchwch reolau a swyddogion y mannau arbennig y byddwch yn ymweld â hwy
- Gwrandewch ac ufuddhewch i gyfarwyddiadau eich athro/awes
- Byddwch yn gwrtais a bonheddig bob amser
- Cadwch tu fewn i'ch grŵp bob amser - peidiwch byth â chrwydro i ffwrdd
- Allan o'r ysgol wrth gerdded/ymweld yn lleol neu gyda grŵp ysgol, cofiwch bob amser bod eich ymddygiad yn adlewyrchu ar eich ysgol

Difrod i eiddo'r ysgol

Ni chaniateir i ddisgybl ddifrodi unrhyw eiddo'r ysgol, yr adeilad, ddodrefn, adnoddau, llyfrau.....

Dylid hysbysu'r rhieni trwy ofyn am dal oddi wrthynt tuag at y gwaith o atgyweirio neu brynu'r eitem/-au a ddifrodwyd.

6. Ymddygiad annerbyniol gan ddisgyblion

- Disgybl yn herio awdurdod aelod o'r staff
- Disgybl yn dangos amarch tuag at aelod o'r staff
- Disgybl yn dangos amarch tuag at ddisgybl arall
- Disgybl yn dangos amarch tuag at eiddo'r ysgol ac eiddo arall
- Disgybl yn barhaus yn gwrthod cydymffurfio â rheolau arferol yr ysgol
- Disgybl yn gadael campws yr ysgol heb ganiatâd
- Disgybl yn troseddu yn erbyn cyfraith gwlad

7. Dulliau o ymateb i ymddygiad annerbyniol:

Gweithredu disgyblaeth

Bydd athrawon, y staff cynorthwyol, gofalwyr yr awr ginio a'r athrawon cyflenwi yn atgoffa'r disgyblion o reolau'r ysgol gan bwysleisio'r ffaith bod y rheolau wedi eu seilio ar degwch a pharch tuag at eraill. Cedwir mewn cof oed y disgybl wrth ymateb i achos o gamymddwyn, ond yr hynaf y disgybl y mwyaf dylai ei ymwybyddiaeth fod o reolau'r ysgol.

- Atgoffa'r disgybl o'r rheol/au; cymryd y disgybl i'r neilltu a'i atgoffa o'i weithred annerbyniol yna ei gael i gyfaddef ei weithred
- Rhoi amser i'r disgybl i ystyried - ei symud i eistedd ar 'gadair dawel', - ei symud i eistedd wrth ymyl yr athro/awes - ei symud i grŵp/stafell arall am gyfnod
- Colli ffafrau megis – amser egwyl, gwers nofio, chwaraeon, aros gydag athro/awes adeg egwyl/ymweliadau ysgol
- Cyflawni tasg yn ystod amser egwyl/awr ginio
- Anfon y disgybl at gyd-athro/awes i gyfaddef ei gamymddygiad
- Anfon y disgybl at y Pennaeth neu'r Dirprwy

- Mewn achos o ddisgybl sy'n dangos problemau cyson a/neu'n gyfrifol o gamymddwyn, dilynir y dref ganlynol:-

- edrych ar gofnodion o ddigwyddiadau annerbyniol y disgybl er mwyn penderfynu ar y dull/-iau mwyaf effeithiol o gynhorthwy'r disgybl i oresgyn ei broblem/-au
- cysylltu â'r rheini a'u gwahodd i'r ysgol i gyd-drafod; os nad oes gwelliant yn ymddygiad y disgybl yna'r Pennaeth a'r athro/awes ddosbarth i drafod ymhellach gyda'r rhieni gyda'r bwriad o gyfeirio'r mater i'r Seicolegydd Addysg er mwyn asesiad a derbyn cyngor

- * eithrio disgybl am gyfnod penodol pan fyddai caniatáu i'r disgybl i aros yn yr ysgol, yn ddifrifol effeithio addysg neu lles y disgybl neu lles yr ysgol
- * eithrio disgybl yn barhaol

* (Dilynir canllawiau'r Awdurdod Addysg Lleol ynglŷn â'r broses o wahardd disgybl o'r ysgol).

Ymhob achos y Pennaeth yn cysylltu â rhieni'r disgybl.

8. Cefnogaeth a chydweithrediad staff

Mae staff Ysgol y Dderwen yn cydweithio fel tîm i greu awyrgylch hapus, cyfeillgar, goddefgar, diogel a pharchus yng nghymdeithas glos yr ysgol.
Pwysleisir mai pobl sy'n bwysig nid system, felly rhaid dangos parch fel egwyddor sylfaenol:

- parch rhwng athro a disgybl
- parch rhwng disgybl ag athro
- parch rhwng athro ac athro
- parch rhwng disgybl a disgybl

Canllawiau i staff:-

- bod yn esiampl/batrwm da ein hunain bob amser mewn ymarweddiad, iaith, gwisg.....
- bod gennym ddisgwyliadau uchel o safonau gwaith ac ymddygiad disgyblion
- bod yn brydlon i'r dosbarth a'r dyletswyddau
- byddwn yn deg i bob disgybl - gochelwn rhag rhoi mwy o sylw i'r disgyblion da na'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig
- peidiwn â gadael plant ein dosbarth ar eu pen eu hunain
- peidiwn â derbyn haerllugrwydd, amarch na digywilydd-dra; yn hytrach disgwyliwn roi a derbyn parch
- ceisiwn ennyn hunan gyfrifoldeb ac ymddiriedaeth yn ein disgyblion
- dilyn problemau trwyddo i'r diwedd
- mynnu glendid a thaclusrwydd
- cofiwn ganmol y da yn lle gorfod condemnio'r drwg

Deddf 'Cosbi corfforol yn yr ysgol' Awst 1987

Diddymwyd cosb gorfforol ym mhob ysgol a gynhelir, ac yn achos pob disgybl. Golyga 'cosbi corfforol' unrhyw ddefnydd bwriadol o rym fel cosb. Mae'n cynnwys nid yn unig y defnydd o gansen neu bren mesur, ond hefyd, dulliau eraill o geryddu, megis rhoi clatsien i blentyn, taflu a tharo â sialc, neu drin yn arw

Gall unrhyw aelod o bersonnel ysgol sy'n defnyddio cosb gorfforol fod yn euog mewn llys sifil.

Rhwystro corfforol

Caniateir rhwystro corfforol gan aelod o staff mewn achosion penodol yn unig, megis:-

- pryd mae disgybl yn bygwth diogelwch disgybl arall, aelod o staff neu unrhyw berson arall
- pryd mae disgybl yn niweidio'i hun

Anodd iawn yw diffinio beth fyddai llys barn yn ystyried yr hyn sy'n dderbyniol mewn achos o rym corfforol. Dylai'r grym a ddefnyddir wrth rwystro disgybl fod yn 'rhesymol' a 'phriodol'. Byddai'r camau canlynol, mae'n siŵr, yn dderbyniol:-

- cyswllt corfforol â'r disgybl er mwyn rheoli symudiadau sy'n achos perygl - dal dwylo/breichiau o gwmpas yr ysgwyddau
- defnyddio synnwyr cyffredin i rwystro'r disgybl dros dro tan iddo/iddi ymdawelu
- defnyddio digon o rym - heb fod yn ormodol gan achosi niwed - i gymryd arf neu wrthrych bygythiol/peryglus allan o afael disgybl
- rhwystro disgybl yn gorfforol i'w atal rhag gwynebu sefyllfa beryglus wrth adael campws yr ysgol

9. Ymddygiad anystywallt yn yr ysgol

Disgybl v Disgybl

Dyletswydd bennaf yw trosglwyddo a sicrhau gofal.

Dylid gwahanu'r ddau ddisgybl cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio cyn lleied o rym ag sy'n bosibl. Yna rhoi cymorth cyntaf i'r disgybl/-ion a niweidiwyd, cysylltu â rhieni'r disgybl a niweidiwyd gan nodi'r -

- digwyddiad
- unrhyw gymorth cyntaf a rhoddwyd
- manylion am ysbyty ac ati.....

Penderfynir ynghlyn ag unrhyw gamau pellach, yn cynnwys ei drio, ar ddifrifoldeb y digwyddiad, ymddygiad blaenorol a chydweithrediad rhieni.

Disgybl v Aelod o staff

Dylid mewn achos o **fygythiad/geiriol** neilltuo'n syth y disgybl yn unigol dan warchodaeth aelod o staff er mwyn iddo/iddi ymdawelu gan ystyried camau yn cynnwys eithrio'r disgybl.

Mewn arhosiad o **ymosodiad corfforol** ar aelod o staff, dylid cymryd y penderfyniad o eithrio'r disgybl yn syth hyd nes cwblheir ymchwiliad i'r digwyddiad.

Hysbysebir yr AALl a Chadeirydd y Llywodraethwyr yn ysgrifenedig. Rhoddir copi o'r adroddiad i'r person a niweidiwyd gyda'r cyngor iddo/iddi gysylltu â'i Undeb Proffesiynol.

Cynnig cymorth meddygol i'r aelod o staff. Rhoi cyfnod tawel iddo/iddi atgyfnerthu.

Dylid gofyn i'r aelod o'r staff a'r disgybl yn unigol roddi adroddiad o'r digwyddiad cyn gynted ag sy'n bosibl wedi'r digwyddiad.

Byddai'n fanteisiol hefyd i dderbyn sylwadau tystion i'r digwyddiad.

Rhieni v Aelod o staff

Ni dderbynnir unrhyw ymddygiad bygythiol neu sarhaus gan rieni.

Dylid ymateb mewn modd tawel a phroffesiynol yn gyntaf, gan nodi nad yw'r fath ymddygiad yn dderbyniol mewn unrhyw drafodaeth.

Rhaid gofyn i'r rhiant adael y campws os parheir yn fygythiol.

Os methir gwneud hyn, yna cysylltir â'r heddlu.

Dylid hysbysu'r heddlu yn ddi-oed os digwydd ymosodiad corfforol gan riant ar aelod o staff.

Dylid trefnu cymorth meddygol cyn gynted ag sy'n bosibl.

Hysbysebir yn ysgrifenedig yr AALl a Chadeirydd y llywodraethwyr a chynghorir yr aelod o staff i gysylltu â'i undeb proffesiynol yn ddi-oed.

10. Crynodeb

Rhaid i ni gofio fod y rhan fwyaf o'n plant yn ymddwyn yn dda ac ein bod yn falch iawn o'r safon uchel o gefnogaeth a gawn gan rieni. Pan fydd ymddygiad y plant yn dirywio mae cefnogaeth a chysylltiad y rheini yn bwysig iawn er mwyn datrys unrhyw broblemau.

Gwelir disgyblaeth mewn fframwaith ehangach o asesu a gwella ymddygiad y plant. Y gofynion elfennol yw y dylai'r plant fod yn fonheddig ac yn feddylgar tuag at eraill.

Mae ein hysgol mewn cymdeithas unigryw ac arbennig iawn. Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel ynghlyn ag ymddygiad y plant. Mae'r disgwyliadau hyn yn cael eu mynegi drwy reolau'r ysgol sydd wedi eu hanelu at bob plentyn. Mae ymddygiad da yn ddisgwyliedig ac yn cael ei ganmol.